Y Tribiwnlys Eiddo Preswyl
Residential Property Tribunal

# Ffurflen Gais
# Deddf Tai 2004

Apeliadau mewn perthynas â Hysbysiadau Gwella, Gorchmynion Gwahardd a Mesurau Brys

**Mae'n bwysig eich bod yn darllen y nodiadau hyn yn ofalus cyn cwblhau'r ffurflen hon.**

**Mae'r ffurflen gais hon hefyd ar gael yn Saesneg. Cysylltwch â'r tribiwnlys am fersiwn Saesneg o'r ffurflen hon.**

**Ysgrifennwch yn glir mewn inc DU.**

Hon yw'r ffurflen gywir i'w defnyddio:

(a) os ydych yn Awdurdod Tai Lleol a'ch bod am adennill y treuliau rhesymol sydd ynghlwm wrth gymryd camau mewn perthynas â safle sy'n destun Hysbysiad Gwella gan berson sy'n elwa ar y camau a gymerir;
(b) os ydych yn lesydd neu'n lesai safle sy'n destun Gorchymyn Gwahardd a'ch bod am amrywio neu derfynu'r les;
(c) os oes gennych fuddiant mewn safle sy'n beryglus neu'n niweidiol i iechyd neu ddiogelwch neu sy'n debygol o ddod yn beryglus neu'n niweidiol i iechyd neu ddiogelwch NEU os y dylech fod yn gyfrifol am gymryd camau gwella neu ailadeiladu a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Tai Lleol a'ch bod yn gwneud cais am orchymyn sy'n eich galluogi i fynd i mewn i'r safle i wneud y gwaith hwn.

**Cofiwch**

Yn achos cais o dan baragraff (c) uchod:

- gall y Tribiwnlys orchymyn bod unrhyw les a ddelir gan yr ymgeisydd ac unrhyw les ddeiliannol yn cael eu penderfynu yn unol ag amodau a threfniadau digolledu sy'n deg ym marn y Tribiwnlys;
- gall y Tribiwnlys roi hawl i'r Awdurdod Tai Lleol oruchwylio neu gymryd unrhyw gamau sydd eu hangen i sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud;
- rhaid talu ffi am y cais hwn

<u>Dogfennau</u>

Mae'n rhaid i chi anfon y dogfennau canlynol ("dogfennau gofynnol") gyda'r cais hwn:

Os ydych yn gwneud cais o dan baragraff (a) uchod:

(i) copi o'r Hysbysiad;
(ii) y datganiad o resymau;
(iii) copi o'r cais am dreuliau;
(iv) copi o unrhyw hysbysiad adennill;
(v) prawf bod y cais wedi'i gyflwyno i'r ymatebydd (ymatebwyr)

Os ydych yn gwneud cais o dan baragraff (b) uchod:

(i) copi o'r Gorchymyn;
(ii) y datganiad o resymau;
(iii) copi o'r les;
(iv) enw a chyfeiriad unrhyw barti arall i'r les ac unrhyw is-les.

Os ydych yn gwneud cais o dan baragraff (c) uchod:

(i) manylion y gwaith arfaethedig gan gynnwys:
- enw a chyfeiriad y contractwr arfaethedig
- amcangyfrif o gost y gwaith
- amserlen ar gyfer dechrau a chwblhau'r gwaith.

(ii) os yw'r cais yn ymwneud â chynllun gwella neu ailadeiladu:
- y cynllun gwella, a
- cymeradwyaeth yr Awdurdod Tai Lleol.

(iii) datganiad o'ch sefyllfa ariannol sy'n dangos yr arian sydd ar gael i dalu am gost amcangyfrifedig y gwaith.
(iv) os yw'r cais yn ymwneud â chais i benderfynu les, copi o'r les.

Os na fyddwch yn anfon unrhyw rai o'r dogfennau gofynnol, efallai na fydd y cais hwn yn ddilys.

Peidiwch ag anfon unrhyw ddogfennau eraill ar hyn o bryd. Os a phryd y bydd angen rhagor o ddogfennau, gwybodaeth neu dystiolaeth, byddwn yn gofyn i chi eu hanfon ar wahân.

<u>Ffi Gwneud Cais</u>

Oni bai bod hawl gennych i gael hepgoriad, rhaid i chi anfon y Ffi Gwneud Cais o £155 gyda'r cais a'r dogfennau gofynnol.

Nid oes rhaid talu ffi am geisiadau o dan baragraffau (a) na (b)

Fydd Rhaid talu'r ffi naill ai gyda siec wedi'i chroesi neu archeb bost wedi'i dynnu o blaid "Llywodraeth Cymru" neu drwy drosglwyddiad banc, y gellir darparu manylion amdani ar gais.

Peidiwch ag anfon arian parod. Ni fyddwn yn derbyn taliadau arian parod.

**Cofiwch:**

Os na fyddwch yn anfon y ffi gywir yn daladwy i "Llywodraeth Cymru" neu os byddwch yn anfon parod, byddwn yn anfon y cais a'r arian parod nôl atoch ac ni dderbynnir cyfrifoldeb am hynny.

<u>Hepgor Ffioedd</u>

Os bydd Ymgeisydd/Ymgeiswyr neu bartner(iaid) unrhyw Ymgeisydd/Ymgeiswyr yn cael budd-daliadau penodol sy'n gysylltiedig ag incwm, gall y Ffi Gwneud Cais gael ei hepgor.

Er mwyn hepgor y Ffi Gwneud Cais, rhaid i'r Ymgeisydd/Ymgeiswyr sy'n cael y budd-dal hwn, neu y mae eu partner(iaid) yn cael y budd-dal hwn, gwblhau ffurflen cais am hepgoriad sydd ar gael gan y Tribiwnlys Eiddo Preswyl. Ni fydd y partïon eraill yn cael copi o'r ffurflen hon.

**Anfonwch y ffurflen gais wedi'i chwblhau, y ffi (neu'r ffurflen cais am hepgoriad wedi'i chwblhau) a'r dogfennau gofynnol i:**

**Y Tribiwnlys Eiddo Preswyl**
**Oak House**
**Cleppa Park**
**Celtic Springs**
**Casnewydd**
**NP10 8BD**

Nodyn i Ymgeiswyr

Dylai ymgeiswyr wybod y gall unrhyw wybodaeth y byddant yn ei rhoi i'r Tribiwnlys gael ei chofnodi mewn dogfen penderfyniad. Mae holl benderfyniadau'r Tribiwnlys ar gael i'r cyhoedd.

Bydd y tribiwnlys yn derbyn ceisiadau trwy e-bost at rpt@llyw.cymru neu ar ffurf copi caled a anfonir trwy'r post.

Dewis iaith

Mae'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Mae'r tribiwnlys hefyd yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Gallwch chi gyflwyno ffurflenni, dogfennau a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r tribiwnlys yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Rhowch wybod i'r tribiwnlys o'ch dewis iaith drwy gwblhau blwch 3 isod.

## 1. MANYLION YR EIDDO

Cyfeiriad yr Eiddo: ______________________

______________________

______________________

______________________

## 2. MANYLION YR YMGEISYDD

Enw'r Ymgeisydd: ______________________

Cyfeiriad (gan gynnwys cod post): ______________________

______________________

______________________

______________________

Cyfeiriad ar gyfer gohebiaeth (os yw'n wahanol): ______________________

______________________

______________________

______________________

Ffôn: Dydd: __________ Min nos: __________ Symudol: __________

Cyfeiriad e-bost: ______________________

Rôl (perchennog/rheolwr): ______________________

Enw a Chyfeiriad a manylion yr asiant (os yw'n berthnasol): ______________________

______________________

Os oes mwy nag un Ymgeisydd, rhowch y manylion ar ddalen ar wahân.

Os rhoddwyd manylion asiant, bydd pob llythyr a chyswllt yn cael eu cyfeirio at yr asiant hyd nes bod y tribiwnlys yn cael gwybod nad yw'r asiant yn gweithredu ar ran yr Ymgeisydd bellach.

## 3. DEWIS IAITH

**Nodwch eich dewis iaith:**

Gohebiaeth ysgrifenedig? Cymraeg / Saesneg (dileer fel y bo'n briodol)

Cyfathrebu ar lafar? Cymraeg / Saesneg (dileer fel y bo'n briodol)

A ydych yn dymuno siarad Cymraeg mewn unrhyw achosion cyfreithiol a allai ddeillio o'r cais hwn h.y. gwrandawiad tribiwnlys neu adolygiad cyn treial?

Ydwyf / Nac ydwyf (dileer fel y bo'n briodol)

## 4. MANYLION YR YMATEBYDD

Enw'r Awdurdod Tai Lleol: ______

Cyfeiriad (gan gynnwys cod post): ______

______

______

______

Cyfeiriad ar gyfer gohebiaeth (os yw'n wahanol): ______

______

______

Cyfeirnod: ______

Ffôn: Dydd: ______ Min nos: ______ Symudol: ______

Cyfeiriad e-bost (os yw'n hysbys): ______

## 5. MANYLION Y LANDLORD (OS NAD YDYCH WEDI'U RHOI YN BAROD)

Enw: ______

Cyfeiriad (gan gynnwys cod post): ______

______

______

______

Cyfeiriad ar gyfer gohebiaeth (os yw'n wahanol): ______

______

______

Cyfeirnod: ______

Ffôn: Dydd: ______ Min nos: ______ Symudol: ______

Cyfeiriad e-bost (os yw'n hysbys): ______

## 6. MANYLION UNRHYW BOBL Â BUDDIANT

Mae angen i'r Tribiwnlys wybod enwau a chyfeiriadau pobl eraill y gallai'r cais gael effaith sylweddol arnynt, fel tenantiaid neu feddianwyr yr adeilad.

Enw person â buddiant: ______

Cyfeiriad (gan gynnwys cod post): ______

______

______

______

Enw person â buddiant: ______

Cyfeiriad (gan gynnwys cod post): ______

______

______

Os oes mwy o bobl â buddiant, rhowch y manylion ar ddalen ar wahân.

## 7. GWYBODAETH YCHWANEGOL

Nodwch yn gryno pam eich bod yn credu y dylai'r Tribiwnlys wneud y gorchymyn rydych yn gwneud cais amdano:

## 8. CEISIADAU ERAILL

A ydych chi'n gwybod am unrhyw geisiadau sydd NAILL AI'N cynnwys materion sy'n ymwneud â'r un safle NEU sy'n ymwneud â safleoedd eraill ond yn cynnwys yr un partïon (naill ai fel Ymgeisydd neu Ymatebydd)?

Os felly, rhowch fanylion gan gynnwys rhif(au) cyfeirnod yr achos. Gall y Tribiwnlys orchymyn bod rhai o'r ceisiadau neu'r materion penodol a godir yn y ceisiadau hynny, neu'r holl geisiadau neu faterion hynny, yn cael eu trin ar yr un pryd.

## 9. A ALLWN NI DDELIO Â'CH CAIS HEB WRANDAWIAD?

Mae'n bosibl y gallwn ddelio â'ch cais ar sail sylwadau ysgrifenedig yn unig ("penderfyniad papur") ond dim ond o dan yr amodau canlynol:

- mae'r Tribiwnlys yn credu bod hynny'n briodol ac
- nid oes unrhyw barti yn gofyn am wrandawiad

Hyd yn oed os byddwch yn cytuno i benderfyniad papur

- efallai y bydd y Tribiwnlys yn penderfynu bod angen cynnal gwrandawiad llafar.
- gallwch chi neu barti arall ofyn am wrandawiad llafar o hyd ar unrhyw adeg cyn i'r penderfyniad gael ei wneud.

| | | |
|---|---|---|
| A ydych chi'n cytuno y gall penderfyniad gael ei wneud ar y cais hwn heb wrandawiad llafar. | YDW ☐ | NAC YDW ☐ |

Gwnewch yn siŵr eich bod yn llenwi'r ffurflen hon i gyd gan dybio y bydd gwrandawiad llafar yn cael ei gynnal.

## 10. BRYS Y CAIS

Rhowch wybod i ni os oes brys arbennig i gael penderfyniad yn yr achos hwn ac os felly, pam?

______________________________________________

______________________________________________

______________________________________________

______________________________________________

______________________________________________

## 11. ARGAELEDD

Os oes unrhyw ddyddiadau neu ddiwrnodau y dylem eu hosgoi dros y tri mis nesaf (naill ai er mwyn bod yn gyfleus i chi neu er mwyn bod yn gyfleus i unrhyw dyst neu arbenigwr yr hoffech alw arnynt), a fyddech cystal â'u rhestru yma.

Dyddiadau pan **NA** fyddwch ar gael:

______________________________________________

______________________________________________

______________________________________________

## 12. GOFYNION LLEOLIAD

Rhowch fanylion unrhyw ofynion arbennig sydd gennych chi neu rywun a fydd yn dod gyda chi (e.e. mynediad ar gyfer cadair olwyn, angen cyfieithydd ar y pryd). Bydd y Tribiwnlys yn gallu gwneud trefniadau os bydd yn gwybod am eich anghenion.

______________________________________________

______________________________________________

______________________________________________

______________________________________________

## 13. DATGANIAD O WIRIONEDD

Credaf fod y ffeithiau yn y cais hwn yn wir.

Llofnod: ______________________________________________

Enw (priflythrennau): ______________________________________________

Rôl (os yw'n briodol): ______________________________________________

Dyddiad: ______________________________________________

RHESTR WIRIO

Gwnewch yn siŵr:

- eich bod wedi cwblhau'r ffurflen hon I GYD.
- eich bod wedi cynnwys yr holl ddogfennau gofynnol.
- eich bod wedi cynnwys y ffi ofynnol neu'r cais am hepgoriad (lle bo angen).

Ni fydd y Tribiwnlys yn prosesu eich cais os na fyddwch wedi gwneud hynny.

**Cysylltwch â'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl os oes gennych unrhyw gwestiynau am sut i lenwi'r ffurflen hon neu'r drefn y bydd y Tribiwnlys yn ei dilyn:**

**Ffôn:** **0300 025 2777**
**E-bost:** **rpt@llyw.cymru**